# Disgrifiad Rôl Gwirfoddolwr Ward Robin

**Lleoliad:** Bydd y gwirfoddolwr yn gweithio ar ward benodol i ddatblygu fel aelod o dîm y ward.

**Yn adrodd i** Nyrs mewn Gofal

**Yn atebol i:** Rheolwr Ward

**Cyswllt y Bwrdd Iechyd:** Rheolwr Gwirfoddolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Disgrifiad Byr o Ddyletswyddau**

Prif nod y rôl yw gweithredu fel cyfaill a darparu cymorth ychwanegol, anffurfiol i'r cleifion, a thrwy hynny, i'r staff. Ni fydd hyn yn cynnwys eiriolaeth neu gynghori.

Fel Gwirfoddolwr Ward Robin, bydd eich dyletswyddau'n amrywio ac yn helaeth gan gynnwys:

- Cwblhau tasgau syml a chynorthwyo cleifion o fewn Ffiniau Rôl Gwirfoddolwr (gweler yn atodol)
- Treulio amser yn sgwrsio gyda'r cleifion.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda chleifion e.e. cwisiau, darllen ayb.
- Mynd ar neges i gleifion i brynu papurau newydd / cylchgronau / byrbrydau fel y maent yn dymuno.
- Darparu lluniaeth i'r cleifion (rhaid gwirio bod y cleifion yn cael yfed hylif)
- Tacluso ardal gwely'r cleifion (ar ben y loceri/ar y bwrdd) i sicrhau eu bod yn lân a thaclus.
- Cynorthwyo wrth baratoi tuag at amser bwyd y cleifion (tacluso'r gofod fel eu bod yn barod i dderbyn y prydau bwyd a chynorthwyo'r cleifion â hylendid dwylo).
- Cynorthwyo'r cleifion gyda dewisiadau'r fwydlen.
- Helpu i storio cyflenwadau.
- Tacluso ac ail-stocio'r raciau gwybodaeth a'r byrddau hysbysu gyda'r adnoddau priodol o dan arweiniad Rheolwr y Ward.
- Cyfeirio perthnasau at gleifion/nyrsys.

Nid yw'r rhestr uchod yn un cyflawn. Hefyd, bydd rhai dyletswyddau'n briodol i wardiau penodol a bydd y dyletswyddau ychwanegol hyn yn cael eu trafod gyda'r gwirfoddolwr a rheolwr y ward.

Mae cyfrinachedd yn holl bwysig yn y rôl hon sy'n cael ei egluro o fewn ffurflen gyfrinachedd y Bwrdd Iechyd y mae'n rhaid i bob gwirfoddolwr ei harwyddo.

Bydd y rôl a'r dyletswyddau yn cael eu hadolygu'n barhaol i sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn gwbl gysylltiedig ag agweddau datblygiadol y rôl.